



*cutting through complexity™*

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Contractio a Chaffael - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am  
Gynnydd

Hydref 2013

Mae'r manylion cyswllt yn  
KPMG ar gyfer yr adroddiad  
hwn fel a ganlyn:

**Ian Pennington** Cyfarwyddwr  
*KPMG LLP (UK)*  
Ffôn: 0292 046 8087  
[ian.pennington@kpmg.co.uk](mailto:ian.pennington@kpmg.co.uk)

**Richard Lee**  
*Rheolwr*  
*KPMG LLP (UK)*  
Ffôn: 0161 838 4661  
[richard.lee@kpmg.co.uk](mailto:richard.lee@kpmg.co.uk)

**Gwyn Williams**  
*Rheolwr Cynorthwyol*  
*KPMG LLP (UK)*  
Ffôn: 0161 246 4936  
[gwyn.williams@kpmg.co.uk](mailto:gwyn.williams@kpmg.co.uk)

**Cyflwyniad**

**Prif negeseuon**

**Gwaith dilynol ar argymhellion yr adroddiad Contractio a Chaffael**

**Tudalen**

2

3

4

**O fewn yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad Contractio a Chaffael a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2012.**

**Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi cymryd canfyddiadau ein hadroddiad cychwynnol o ddifrif.**

**Mae swyddogion ar draws sawl adran wedi cwblhau cryn dipyn o waith mewn ymateb i'r argymhellion.**

**Mae rhai camau gweithredu yn mynd rhagddynt o hyd, a bydd yn cymryd amser i'r holl newidiadau ymsefydlu'n llawn yn y ffordd y mae pobl yn gweithio.**

**Yn gyffredinol, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i reoli ei gcontractau.**

Diben yr adroddiad hwn yw ystyried cynnydd y Cyngor wrth roi'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad Contractio a Chaffael a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Awst 2012 ar waith fel rhan o'n rôl fel archwilwyr penodedig. Rydym bellach yn ymgymryd â gwaith archwilio yn y cyngor ar ran yr Archwilydd Penodedig presennol, Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru, ac rydym wedi trafod yr adroddiad hwn ac wedi cytuno arno gydag ef.

Paratodd swyddogion gynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion, a chyflwynwyd adroddiad ar eu cynnydd wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2012 a mis Chwefror 2013. Cyflwynodd Archwilwyr Mewnol y Cyngor eu hadroddiad eu hunain ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion ym mis Ebrill 2013.

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom gynnal trafodaethau gydag Archwilwyr mewnol y Cyngor fel man cychwyn ar gyfer ein gwaith annibynnol ein hunain i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion. Fel rhan o'n hadolygiad, aseswyd yr hunanasesiad a'r ddogfennaeth ategol a chynhaliwyd trafodaethau gydag aelodau perthnasol o staff y Cyngor.

Gwnaethom gyfanswm o 21 o argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol. Dengys y tabl isod ein hasesiad o statws presennol yr argymhellion hyn.

|                               | Gweithredwyd | Yn parhau / Yn mynd rhagddo | Nis gweithredwyd | Ddim yn berthnasol (disodlwyd) | Cyfanswm |
|-------------------------------|--------------|-----------------------------|------------------|--------------------------------|----------|
| <b>Statws yr argymhelliad</b> | 3            | 17                          | 0                | 1                              | 21       |

Nodir canfyddiadau manwl ar gyfer pob argymhelliad ar dudalennau 5-24 o'r adroddiad hwn. Lle y bo'n briodol, rydym wedi cynnig awgrymiadau ychwanegol o ran sut y gellir atgyfnerthu'r amgylchedd rheoli.

**Roedd ein hadroddiad cychwynnol yn cynnwys 21 o argymhellion ac mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gwneud cynnydd sylweddol wrth roi'r argymhellion hyn ar waith.**

**Gellir trefnu ymatebion y Cyngor hyd yn hyn i bedair thema allweddol eang:**

- **Hyfforddiant, sgiliau a rhannu profiadau**
- **Rheoli contractau**
- **Pont Maesdu - materion contract penodol**
- **Ymsefydlu'r diwylliant**

Yn ystod 2013, cafodd y Gwasanaethau Technegol Amgylcheddol (ETS), y Gwasanaethau Rheoli Eiddo ac Asedau (PMAS) a'r Gwasanaethau Prifffyrdd a Seilwaith eu huno i greu un gyfarwyddiaeth gyffredinol - cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (ERF).

Gwnaed hyn yn bennaf er mwyn casglu arbenigedd y Cyngor ynghyd o fewn un gyfarwyddiaeth, gan sicrhau y caiff adnoddau priodol eu rheoli mewn ffordd gydgyssylltiedig gan yr un uwch dîm rheoli. Roedd hyn yn newid mawr i strwythur y sefydliad ac rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen cryn amser i'r strwythur newydd ymsefydlu'n llawn.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr ad-drefnu hwn yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau arferion contractio unfurf drwy'r Cyngor ac at sicrhau bod yr arferion hynny yn destun gweithdrefnau herio a chraffu cyson.

| Thema   | Crynodeb o ganfyddiadau   |
|---|---|
| <b>Hyfforddiant, sgiliau a rhannu profiadau</b> | <p>Un o amcanion allweddol y Cyngor yw sicrhau bod swyddogion sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn gyfrifol am reoli contractau ymhob adran. Mae'r lefel briodol o hyfforddiant a sgiliau yn hanfodol er mwyn rhoi'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn ar waith yn llwyddiannus.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i adolygu sgiliau swyddogion sy'n rhan o'r broses gontractio. Fel rhan o'r gwaith hwn, diweddarwyd y broses sefydlu a chynigiwyd hyfforddiant i aelodau o staff sy'n ymwneud â phrosiectau. Mae'r Cyngor hefyd wrthi'n llunio cofrestr sgiliau o'r holl staff sy'n ymwneud â phrosiectau, a dylai anelu at gwblhau'r broses hon cyn gynted â phosibl.</p> <p>Mae rhannu profiadau, o fewn y sefydliad a chyda Chynghorau eraill, yn werthfawr o ran gwella'r ffordd y caiff contractau eu rheoli. Os gwneir hyn mewn modd amserol, gall sicrhau y caiff profiadau cadarnhaol eu haildrodd ac y caiff camgymeriadau eu hosgoi. Mae rhannu gwybodaeth yn allweddol er mwyn gwella sgiliau swyddogion a dylai'r Cyngor barhau i gefnogi a hyrwyddo grwpiau fel y Fforwm Contractau, sydd eisoes yn lledaenu arfer gorau ar draws adrannau.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi gofyn i'r gwasanaeth Archwilio mewnol ddechrau rhaglen o 'adolygiadau gweithredol' gyda'r bwriad o nodi problemau ac arfer gorau a chyflwyno adroddiadau amserol ar gynnydd. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr adolygiadau hyn yn cwmpasu'r holl gontractau a phrosiectau risg uwch. Yn ogystal, roedd yr adolygiadau gweithredol a welwyd gennym wedi bod yn llafurus, a allai danseilio gwerth "adolygiad gweithredol". Er mwyn i'r canfyddiadau fod yn ystyrlon a sicrhau'r gwerth gorau posibl i'r Cyngor, mae angen cyflwyno'r canlyniadau mewn modd amserol er mwyn gallu rhoi camau gweithredu ar waith. Felly mae angen diwygio cwmpas adolygiadau a'u cyflwyno ar ffurf 'adolygiad llosg' sydd ond yn ystyried rhai elfennau penodol o brosiect ac sy'n darparu adborth cyflym, yn hytrach na darparu'r sicrwydd llawn sy'n gysylltiedig ag aseiniad archwilio mewnol arferol.</p> <p>Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dangos y bu adegau lle y rhannwyd canfyddiadau gydag awdurdodau cyfagos; ond mae gan y Cyngor gryn dipyn o waith i'w wneud cyn y caiff y diwylliant hwn ei ymsefydlu'n llawn.</p> |

Roedd ein hadroddiad cychwynnol yn cynnwys 21 o argymhellion ac mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gwneud cynnydd sylweddol wrth roi'r argymhellion hyn ar waith.

Gellir trefnu ymatebion y Cyngor hyd yn hyn i bedair thema allweddol eang:

- Hyfforddiant, sgiliau a rhannu profiadau
- Rheoli contractau
- Pont Maesdu - materion contract penodol
- Ymsefydlu'r diwylliant

| Thema                                     | Crynodeb o ganfyddiadau   |
|---|---|
| <b>Rheoli contractau</b>                  | <p>Mae gan y Cyngor eisoes fframwaith rheoli prosiectau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn dryloyw a bod swyddogion ac aelodau yn atebol am eu penderfyniadau.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor bellach sicrhau y caiff y fframwaith rheoli prosiectau ei ategu gan ganllawiau wedi'u diweddarau megis rheolau sefydlog diwygiedig ar gontractau, rhestrau gwirio a thempledau cofnodi risg.</p> <p>Dylai swyddogion sicrhau y dilynir y canllawiau diweddaraf ymhob achos. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor am ddefnyddio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i fonitro cydymffurfiaeth ar sail contractau unigol.</p>   |
| <b>Maesdu - materion contract penodol</b> | <p>Yn ein hadroddiad cychwynnol, nodwyd nifer o faterion penodol mewn perthynas â chontract Pont Maesdu. Ar y pryd, roedd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi paratoi adroddiad ar y trefniadau ar gyfer rheoli'r contract hwn ac wedi cyflwyno adroddiad i'r aelodau ar y diffygion a nodwyd.</p> <p>Argymhellodd ein hadroddiad y dylai'r Cyngor baratoi adroddiad ychwanegol er mwyn ystyried y ffactorau sylfaenol a oedd yn achosi'r cynnydd mewn costau yn fanylach.</p> <p>Ni pharatodd y Cyngor adroddiad ychwanegol er mwyn nodi'r achosion sylfaenol hyn, ac mae angen iddo wneud hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, noda ein gwaith fod costau cyfalaf y prosiect yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac y cyflwynir adroddiadau rheolaidd i bwyllgorau ar unrhyw amrywiadau o ran cost.</p> |
| <b>Ymsefydlu'r diwylliant</b>             | <p>Yn gyffredinol, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth roi argymhellion yr Adroddiad Contractio a Chaffael gwreiddiol ar waith.</p> <p>Noda ein gwaith fod y sylfeini ar waith i weithredu'r argymhellion yn llawn. Fodd bynnag, dim ond yn yr hirdymor y gellir mesur effeithiolrwydd a chadernid y broses weithredu mewn gwirionedd.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor yn awr barhau i weithio i sicrhau y caiff yr argymhellion yn yr adroddiad hwn eu rhoi ar waith yn llawn i'r graddau y maent wedi ymsefydlu ac y dônt yn rhan o'r trefniadau beunyddiol ar gyfer rheoli contractau'r Cyngor.</p>   |

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Prosesau Contractio Cyffredinol - A1

Mae angen i'r Cyngor asesu pam nad yw llawer o swyddogion unigol yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a'r gofynion corfforaethol canolog clir ar gyfer cydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael o fewn eu gwasanaethau. Mae angen i'r Cyngor asesu p'un ai mater o sefydlu, hyfforddiant, arweinyddiaeth, rheolaeth neu orfodi - neu bob un ohonynt - yw hyn a chymryd camau priodol i wella rheolaeth yn y maes hwn.

- a) Adolygu gweithdrefnau sefydlu adrannau er mwyn cadarnhau bod polisïau a gweithdrefnau a gofynion corfforaethol canolog ar gyfer cydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael wedi'u cwmpasu'n ddigonol.
- b) Adolygu gweithdrefnau sefydlu corfforaethol er mwyn cadarnhau bod polisïau a gweithdrefnau a gofynion corfforaethol canolog ar gyfer cydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael wedi'u cwmpasu'n ddigonol.
- c) Adolygu gwendidau caffael ac argymell camau gwella. Y Fforwm Contractau i Unio diffiniad mesuradwy clir o 'werth am arian'. Cynnwys rhagor o wybodaeth yn y trefniadau Sefydlu Corfforaethol megis taflen ffeithiau ar Reolau Sefydlog ar Gontractau a Rheoliadau Ariannol.
- d) Rhoi camau gweithredu o (c) ar waith gan gynnwys
  - datblygu cofrestr cydymffurfiaeth i'w hadolygu yng nghyfarfodydd Timau Rheoli Adrannau
  - nodi pob swyddog sy'n ymwneud â chontractio a chaffael
  - cyflwyno hyfforddiant penodol ar gydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael i bob swyddog a nodir uchod

## Arsylwadau dilynol

## Statws

(a) a (b) - Addaswyd y broses sefydlu i gynnwys gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â rheolau sefydlog a rheoleiddio contractau. Fel rhan o hyn, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi paratoi cyflwyniad PowerPoint a gaiff bellach ei gynnwys fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer pob cyflogai newydd.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i greu canllawiau ychwanegol i gyflogaion newydd yn nodi gwybodaeth gaffael allweddol. Fodd bynnag, ni chwblhawyd y gwaith hwn eto.

(c) – Daeth adolygiad y Fforwm Contractau o ddata contractau ar gyfer y 12 mis diwethaf i'r casgliad bod y Cyngor yn cydymffurfio â gweithdrefnau contractio a chaffael yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor ar Gontractau.

(d) - Cadarnhawyd gennym fod cofrestr sgiliau wedi'i chwblhau'n rhannol bellach ar waith. Mae CVs unigol wrthi'n cael eu llunio ar gyfer pob aelod o staff a nodir ar y gofrestr, gan nodi eu meysydd arbenigedd, eu cymwysterau a'u profiad diweddar ar brosiectau. Rydym ar ddeall y caiff y gofrestr ei diweddarau'n llawn unwaith y bydd y broses o ailstrwythuro adrannau wedi'i chwblhau.

Unwaith y caiff ei chwblhau, bydd y gofrestr sgiliau ar gael i bob rheolwr, y disgwylir iddynt edrych ar y gofrestr cyn penderfynu ar staff prosiect, drwy ymgynghori â'r Adran Ymgynghoriaeth.

Rydym hefyd wedi cadarnhau y cynhaliwyd hyfforddiant penodol ar gydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael ar ffurf gweithdai 'Rheoli Adeiladu' a gynhaliwyd gydag aelodau perthnasol o staff ym mis Ebrill a mis Mai 2013.

### Yn parhau

Rydym wedi cadarnhau bod y broses sefydlu wedi'i diwygio i staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal gweithdai gloymi ar reoli contractau i aelodau perthnasol o staff.

Unwaith y caiff ei chwblhau, rhaid i'r Cyngor ddiffinio'n glir sut y caiff y gofrestr sgiliau ei defnyddio i wella cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ar gontractau ar sail ddyddiol.

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Polisiâu a Rheolau Sefydlog - A2

Dylai'r Cyngor adolygu ei Reolau Sefydlog ar Gontractau (CSO) a'i God Ymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r amgylchedd presennol; er mwyn cywiro unrhyw anghysondebau gweithredu hysbys ac er mwyn ymateb i unrhyw bwyntiau dysgu a godwyd yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiadau archwilio mewnol manwl a gyhoeddwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Sefydlwyd y grŵp CSO er mwyn adolygu a diweddarau'r CSO a'r Cod Ymarfer. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd a dylid gofyn yn benodol iddo ddiweddarau, cywiro anghysondebau, ac ymateb i'r canlynol:

- unrhyw bwyntiau dysgu a godwyd o archwiliadau
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar gyfer safonau cenedlaethol
- gwaith a wnaed yn ddiweddar ar y cyd â Sir Ddinbych

## Arsylwadau dilynol

## Statws

Bu oedi wrth sefydlu Rheolau Sefydlog ar Gontractau newydd i'r Cyngor cyfan a gaiff eu hehangu i ymdrin â threfniadau ar gyfer cydweithio â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol eraill.

Roedd y Cyngor wedi bwriadu mabwysiadu cynigion a wnaed gan CLILC i sefydlu set genedlaethol safonol o Reolau Gweithdrefnol ar Gontractau (CPR). Gohiriwyd cynigion CLILC, gan effeithio felly ar allu'r Cyngor i gwblhau'r cam gweithredu.

Rydym wedi adolygu gohebiaeth sy'n dangos bod y grŵp CSO yn ystyried sut y caiff cydberthnasau cydweithio â chynghorau lleol eraill eu rheoli'n effeithiol. Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint er mwyn ceisio sicrhau bod CSO/CPR mor gyson â phosibl â'i gilydd.

Mae Cyngor Conwy bellach wedi cyhoeddi CSO/CPR newydd drafft ac wedi sefydlu gweithgor gyda'r bwriad o lunio fersiynau terfynol.

### Yn parhau

Mae angen i'r Cyngor lunio set newydd derfynol o CSO/CPR cyn gynted â phosibl.

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Y Tim Caffael - A3

Dylai uwch swyddogion ystyried ei gwneud yn orfodol defnyddio swyddogion caffael arbenigol ar gyfer pob penderfyniad prynu pwysig.

Adolygu'r rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd ac ystyried eu newid wrth ddiweddarau'r rheolau sefydlog ar gontractau a'r cod ymarfer. Nodi'r buddiannau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â phrosiectau adeiladu.

## Arsylwadau dilynol

## Statws

Cadarnhaodd KPMG fod y Fforwm Contractau yn goruchwyllo adolygiad cyfoedion annibynnol y Grŵp Ansawdd o'r Achosion Busnes a gyflwynwyd â gwerth uwchlaw £500k o fis Tachwedd 2012 ymlaen. Adolygodd KPMG hefyd gofnodion cyfarfodydd y Fforwm Contractau er mwyn cadarnhau bod y Rheolwr Caffael Corfforaethol bellach yn aelod o'r Fforwm o fis Rhagfyr 2012.

Mae'r Grŵp Ansawdd yn cynnwys aelodau o'r Fforwm Contractau, gan gynnwys aelodau o staff â phrofiad contractio a chaffael, gan gynnwys prosiectau adeiladu mawr.

Er bod tystiolaeth y trafodwyd tri achos busnes yng nghyfarfod y Fforwm Contractau ym mis Tachwedd 2012, mae'n amlwg o'r cofnodion ac o drafodaethau a gafwyd gydag uwch aelodau o staff y Cyngor fod angen eglurder o ran y meini prawf a ddefnyddir i werthuso penderfyniadau caffael.

Mae'r cylch gwaith a roddwyd i'r Grŵp Ansawdd o ran adolygu Achosion Busnes yn anffurfiol ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw feini prawf penodedig yn cael eu dilyn. Rydym ar ddeall bod y Cyngor yn bwriadu pennu meini prawf penodol, gan ddefnyddio canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) i lywio'r broses.

### Yn parhau

Mae'n bwysig sicrhau y caiff y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gwerthuso achosion busnes eu ffurfioli a'u deall yn llawn er mwyn i'r Grŵp Ansawdd allu eu cymhwyso mewn ffordd gyson a beirniadol.

Dylai'r Cyngor barhau i sicrhau bod aelodau'r Grŵp Ansawdd a'r Fforwm Contractau yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i ategu penderfyniadau caffael pwysig.



| Argymhelliad cychwynnol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |
|--|--|
| <p><b>Cymorth Arbenigol - A4</b></p> <p>Cyn penderfynu ar gamau gweithredu, dylai'r Cyngor asesu achos busnes cyffredinol gan gynnwys yr holl gostau ymylol sy'n ychwanegol at gostau'r prif contract. Dylid cynnwys uwch aelodau priodol o staff, fwy na thebyg o nifer o ddisgyblaethau ar draws y Cyngor, yn yr adolygiad diwydrwydd dyladwy o'r achos busnes.</p>  | <p>Adolygu'r fframwaith Rheoli Prosiectau er mwyn sicrhau digonolrwydd rheolaethau presennol ac argymhell gwelliannau lle y bo angen.</p> <p>Cynnwys y gofyniad i Dîm Ansawdd, sy'n atebol i Fwrdd Prosiect, gynnal adolygiad diwydrwydd dyladwy o'r achos busnes yn y Fframwaith Rheoli Prosiectau.</p>   |
| Arsylwadau dilynol   | Statws   |
| <p>Cafodd Rhaglen Conwy a'r Fframwaith Rheoli Prosiectau eu hadolygu a'u diweddarau gan y Cyngor ym mis Mawrth 2013.</p> <p>Rydym wedi cadarnhau bod siart llif bellach ar waith i dywys swyddogion ac i'w hatgoffa o'r gofynion gweithdrefnol i'w dilyn wrth lunio achosion busnes.</p> <p>Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno rhestr wirio 'Amcangyfrif Costau' a baratowyd gan y Fforwm Contractau. Caiff y dogfennau hyn bellach eu cynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth dempled orfodol ar gyfer pob achos busnes newydd ar gyfer prosiectau &gt;£500k, ac fe'u cynhwysir o fewn llawlyfr diwygiedig y Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau. Mae'r rhestr wirio yn gofyn am amcangyfrifon ar gyfer holl gostau cysylltiedig y prosiect, gan gynnwys costau ymylol.</p> <p>Yn unol â'r arsylwadau dilynol ar gyfer A3, er ei bod yn amlwg bod y Grŵp Ansawdd bellach yn adolygu achosion busnes ar gyfer prosiectau &gt;£500k, mae'r cylch gwaith a roddir yn anffurfiol ar hyn o bryd, ac ni ddilynir unrhyw feini prawf penodedig.</p> <p>Gwnaethom gadarnhau y cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer uwch swyddogion ac Aelodau etholedig sy'n rhan o Fyrddau Prosiect, gan sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i graffu ar achosion busnes a'u dogfennaeth sefydlu prosiect a'u herio.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Mae'r rhestr wirio 'Amcangyfrif Costau' orfodol bellach yn cael ei defnyddio gan bob prosiect &gt;£500k. Yn yr hirdymor, dylai'r Cyngor barhau i sicrhau y caiff y prosesau, y siartiau llif a'r fframweithiau gorfodol eu dilyn ac y caiff rhestrau gwirio a dogfennaeth eu cwblhau ar gyfer pob contract ac achos busnes newydd a phresennol.</p> <p>Mae'n bwysig sicrhau y caiff y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gwerthuso achosion busnes eu ffurfioli a'u deall yn llawn er mwyn i'r Grŵp Ansawdd allu eu cymhwyso mewn ffordd gyson a beirniadol.</p> |

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |  |
|---|--|--|
| <p><b>Contractau a Dogfennaeth Dendr - A5</b></p> <p>Wrth lunio contractau a dogfennaeth dendr, dylai'r Cyngor asesu p'un a oes trothwyon ansawdd neu safonau gwasanaeth gofynnol, y bydd methu â'u cyflawni yn golygu y caiff cais ei wrthod.</p>  | <p>a) Sicrhau y caiff digon o adnoddau a staff â chymwysterau priodol eu neilltuo i lunio dogfennau tendr.</p> <p>b) Cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheoli neu wendidau mewn perthynas ag adolygiadau porth ym maes rheoli prosiectau.</p>  |  |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |  |
| <p>Gwnaethom gadarnhau, ar gyfer prosiectau pwysig â gwerth &gt;£500k, y caiff dogfennaeth ei hadolygu gan Reolwr y Prosiect, Rheolwr y Gwasanaeth a Phennaeth y Gwasanaeth. Nid anfonir llythyrau gwahoddiad at ddarpar bartneriaid hyd nes y bydd y Cyfarwyddwr perthnasol wedi'u llofnodi i'w cymeradwyo.</p> <p>Ar gyfer prosiectau mawr lle ceir risg uchel, mae aelodau Bwrdd y Prosiect sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad priodol bellach yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r dogfennau. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosiect Glan y Môr Bae Colwyn ac Ysgol y Gogarth fel enghreifftiau o arfer da a ddilynodd y broses hon.</p> <p>Fodd bynnag, nid yw'r broses adolygu hon wedi'i safoni ar hyn o bryd, ac nid yw'r meini prawf ar gyfer adolygu dogfennaeth dendr yn unffurf.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Mae'r Cyngor wedi dangos bod Bwrdd y Prosiect bellach yn ymwneud fwy â'r broses gaffael ar gyfer prosiectau mawr.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor bellach ganolbwyntio ar sicrhau bod aelodau Bwrdd y Prosiect yn meddu ar y sgiliau priodol iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.</p> <p>Gellid atgyfnerthu'r broses hon ymhellach drwy gyflwyno rhestr wirio a fydd yn sicrhau bod y cynnwys priodol yn rhan o ddogfennaeth dendr i'w dosbarthu. Byddai hyn yn sicrhau bod y meini prawf adolygu wedi'u safoni.</p> |  |

| Argymhelliad cychwynnol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor   |
|--|---|
| <p><b>Prosesau Tendro a Chaffael - A6</b></p> <p>Dylai'r Cyngor roi'r camau gweithredu a nodwyd yn adroddiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â phrosesau tendro a chaffael ar waith.</p> <p>Dylai uwch swyddogion asesu p'un a yw rhaglen newid pob adran ar y trywydd cywir a ph'un a yw'r amserlen yn ddigon uchelgeisiol.</p> <p>Dylid gofyn yn rheolaidd i uwch swyddogion gyfiawnhau eu hymatebion i argymhellion archwilio i aelodau'r Pwyllgor Archwilio.</p>  | <p>Sicrhau y cyflwynir adroddiadau yn erbyn amserlen newid pob adran ac y caiff ei herio fel rhan o bob Adolygiad o Berfformiad Gwasanaeth.</p> <p>Asesu'r meini prawf ar gyfer dewis uwch swyddogion i fynychu'r Pwyllgor Archwilio.</p>   |
| Arsylwadau dilynol   | Statws  |
| <p>Fel rhan o broses y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, cyflwynir adroddiad ar gynnydd i'r aelodau sy'n dangos y statws gweithredu ar gyfer yr argymhellion a godwyd. Dylai'r aelodau barhau i ganolbwyntio ar yr adroddiad hwn a herio achosion lle na weithredwyd argymhellion mewn modd amserol; fel yr arsylwyd gennym mewn cyfarfodydd mwy diweddar.</p> <p>Nodwyd gennym, mewn rhai amgylchiadau penodol, ei bod yn ofynnol i swyddogion fynd i gyfarfodydd er mwyn ateb cwestiynau ar faes sy'n destun adolygiad, diffygion a nodwyd yn yr amgylchedd rheoli a chynnydd wrth roi argymhellion ar waith.</p> <p>Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhannu'r protocol a ddefnyddir i benderfynu pa swyddog ddylai fynd ger bron y Pwyllgor Archwilio gyda ni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ pan fydd adolygiad gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn nodi dim sicrwydd neu sicrwydd cyfyngedig;</li> <li>▪ lle y nodir diffyg cynnydd wrth roi argymhellion ar waith.</li> </ul> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Galwyd ar swyddogion i ymddangos ger bron cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar sail fwy cyson yn ystod y 12 mis diwethaf.</p> <p>Pan gaiff swyddogion gais i ymddangos ger bron y Pwyllgor Archwilio, dylai'r Cyngor sicrhau bod yr aelodau yn herio ac yn craffu'n briodol.</p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y protocol a ddogfennwyd ei rannu gyda phob Pennaeth Gwasanaeth.</p> |

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Gwariant Cynnal a Chadw Ad Hoc - A7

Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o wariant cynnal a chadw ad hoc er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian. Dylai'r adolygiad hwn ystyried yr holl ddulliau amgen posibl ar gyfer ymgymryd â 'gwaith trwsio' bach - o'r rhestrau cyflenwyr cymeradwy sy'n bodoli eisoes, cyflogi tîm cynnal a chadw bach a threfnu contractau allanol ar gyfer yr holl waith, gan roi ystyriaeth briodol i werth am arian ac awydd i'r Cyngor wario ei arian o fewn ffiniau ei sir.

Adolygu gwariant presennol ar waith cynnal a chadw er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer cynyddu gwerth am arian.

## Arsylwadau dilynol

## Statws

Rydym wedi adolygu adroddiad a baratowyd gan y Cyngor a ystyriodd wariant ar waith cynnal a chadw o fewn adrannau'r Gwasanaethau Technegol Amgylcheddol (ETS), y Gwasanaethau Rheoli Eiddo ac Asedau (PMAS) a'r Gwasanaethau Prifffyrdd a Seilwaith yn ystod 2011/12. Noda'r adroddiad nifer o argymhellion gan gynnwys y canlynol:

- PMAS i sicrhau ei fod yn ymdrin â methiant i ddangos y dyfarnwyd gwaith mewn modd cystadleuol mewn perthynas â Mân Waith Cynnal a Chadw Adeiladau. Galwodd yr argymhelliad am Restr Gymeradwy ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw Adweithiol a Mân Waith gyda chontractwyr sydd wedi cyflwyno rhestr prisiau y cytunwyd arnynt. Adolygodd y Cyngor y Rhestr Gymeradwy, a chyflwynwyd tendr ar gyfer y gwaith ar sail rhestr prisiau ar draws pob masnach. Rhoddwyd cyfarwyddyd i swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor gwblhau adolygiad dilynol ar Gynnal a Chadw Adeiladau a fydd yn cynnwys adolygiad o'r Rhestr Gymeradwy er mwyn cadarnhau ei bod yn addas at y diben a disgwylir iddi gyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau ddechrau 2014;
- Pob adran i gyhoeddi Fframweithiau, Rhestrau Cymeradwy a Chontractau Tymor fel adnodd canolog, er mwyn i adrannau comisiynu allu nodi contractwyr, rhestrau prisiau addas ac ati. Cytunwyd ar y cam gweithredu hwn ond nis gweithredwyd eto;
- Paratoi Achos Busnes ar gyfer gwneud gwaith Cynnal a Chadw Adeiladau yn fewnol. Cytunwyd ar y cam gweithredu hwn ond nis gweithredwyd eto.

Dim ond yn y tymor canolig i'r hirdymor y gellir asesu effaith barhaus yr adolygiad hwn, unwaith y bydd y camau gweithredu i ymdrin â'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith.

### Gweithredwyd

Mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad yn unol â'r argymhelliad a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at feysydd pellach i'w hystyried ac wedi nodi nifer o gamau gweithredu ac argymhellion y mae angen eu cwblhau bellach.

Rhaid i'r Cyngor bellach sicrhau y caiff y camau gweithredu newydd hyn eu hasesu ac, os yn briodol, eu rhoi ar waith ar draws pob gwasanaeth ac y manteisir ar gyfleoedd i sicrhau gwerth am arian lle bynnag y bo'n bosibl.

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |  |
|---|--|--|
| <p><b>Gwerth am Arian - A8</b></p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu pob contract a threfniant prynu pwysig er mwyn sicrhau ei hun eu bod yn darparu gwerth am arian.</p>   | <p>a) Adolygu pob contract a threfniant prynu pwysig er mwyn cadarnhau gwerth am arian.</p> <p>b) Gan ddefnyddio'r data a ddarperir yn (a) uchod, nodi cyfleoedd caffael ar gyfer cynyddu gwerth am arian.</p>   |  |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |  |
| <p>a) Cadarnhaodd KPMG fod ETS, PMAS a'r Gwasanaethau Priffyrdd a Seilwaith yn adolygu eu contractau a'u trefniadau prynu pwysig cyn yr ailstrwythuro diweddar, ac mae proses adolygu barhaus bellach ar waith o dan gyfarwyddiaeth newydd yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (ERF). Adolygwyd dogfennaeth a gynhyrchwyd gan y Cyngor i ddangos cydymffurfiaeth wrth gaffael contractau pwysig ac ni nodwyd unrhyw faterion sylweddol mewn perthynas â gwerth am arian.</p> <p>Mae'r gweithdrefnau fel y'u pennwyd gan Ffurflen Contract NEC3 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfodydd 'Rhybudd Cynnar' gyda'r Contractwr yn ystod y cam adeiladu. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor nodi pryderon o ran gwerth am arian yn ystod cam cynnar.</p> <p>Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd ôl-adeiladu, lle yr ystyrir gwerth am arian y prosiect terfynol drwy edrych yn ôl.</p> <p>b) Caiff y gwersi gwerth am arian a ddysgwyd o brosiectau, a gesglir drwy gyfarfodydd 'Rhybudd Cynnar' ac ôl-adeiladu, eu cyfleu yn ôl i'r adran. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddull safonol na ffurfiol o ledaenu'r wybodaeth hon a sicrhau y caiff ei defnyddio mewn ffordd effeithiol a chydgyssylltiedg ar brosiectau eraill.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Mae'n amlwg y gwnaed cynnydd wrth sicrhau bod ystyriaethau gwerth am arian nid yn unig yn rhan o'r broses gaffael ei hun ond eu bod hefyd yn rhan o'r cam adeiladu.</p> <p>Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno proses sy'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd lle na lwyddir i sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, gallai telerau contractau presennol gyfyngu ar hyn.</p> <p>Dylai'r Cyngor hefyd ystyried cyflwyno cofnod canolog o faterion / cyfleoedd gwerth am arian a nodir ar draws pob prosiect, gan sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd eu cofnodi a'u lledaenu i brosiectau eraill mewn modd safonol.</p> |  |

| Argymhelliad cychwynnol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |  |
|--|--|--|
| <p><b>Gweithwyr Asiantaeth - A9</b></p> <p>Dylai'r Cyngor gwblhau ei asesiad o staff asiantaeth/contractwyr/ymgynghorwyr cyn gynted â phosibl, a chan ystyried y wybodaeth honno, baratoi canllawiau priodol o ran sut y dylid caffael staff o'r fath yn y dyfodol.</p>  | <p>Llunio strategaeth recriwtio/cyflogi adrannol.</p>  |  |
| Arsylwadau dilynol   | Statws   |  |
| <p>Rydym wedi cadarnhau bod y Cyngor bellach wedi cyflwyno proses gymeradwyo ar gyfer trefnu contractau gweithwyr asiantaeth, ac mae canllawiau ar waith sy'n golygu y gall Penaethiaid Gwasanaethau gyflogi gweithwyr asiantaeth am gyfnodau o hyd at 12 wythnos.</p> <p>Ar gyfer cyfnodau lle y caiff staff asiantaeth eu defnyddio am gyfnod o 12 wythnos neu fwy, mae angen awdurdod gan y Grŵp Gweithredol.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Dylai'r Cyngor bellach sicrhau bod ei weithrefnau caffael yn cydymffurfio'n llawn â holl ofynion caffael yr UE er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerth am arian mewn perthynas â ffioedd asiantaeth.</p> |  |

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Adolygiadau Archwilio Mewnol - A10

Dylai'r Cyngor ddiwygio ei ddull gweithredu mewn perthynas ag adolygiadau Archwilio mewnol a chytuno ar amserlen cyn i'r contract ddechrau. Ar gyfer prosiectau mwy o faint, dylai'r gwasanaeth Archwilio mewnol ystyried adolygiadau "gweithredol" wrth i'r gwaith fynd rhagddo er mwyn nodi risgiau a phroblemau ar adeg lle y gall y Cyngor geisio eu datrys.

Rhoi rhaglen amlinellol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer prosiectau mwy o faint. Adnoddau rhaglenni i ddarparu adolygiadau "gweithredol" fel y bo'n briodol.

## Arsylwadau dilynol

## Statws

Adolygodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol brosiect Ysgol y Gogarth ym mis Chwefror 2013 a nododd y gwnaed gwelliannau o ran rheoli contractau a rheolaeth gyllidebol. Diben yr adolygiad oedd nodi argymhellion 'gweithredol' a hwyluso'r broses o rannu arfer gorau.

Nodwyd gennym fod yr adolygiad gweithredol wedi cymryd cryn amser i'w gwblhau ar ei ffurf derfynol ac, o ganlyniad, dim ond ar gyfer nifer fach o brosiectau y cwblhawyd y math hwn o adolygiad.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi egluro ei fod yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risgiau er mwyn pennu pa brosiectau y byddai archwiliad o fudd iddynt gan nad oes digon o adnoddau ar gael i gyflawni adolygiadau gweithredol ar bob prosiect mawr.

### Yn parhau

Mae'r Cyngor wedi dechrau rhaglen o adolygiadau gweithredol ar gyfer prosiectau mawr (>£500k).

Er mwyn sicrhau y cyflwynir adroddiadau amserol ar y canfyddiadau ac er mwyn rhoi cyfle i gymryd camau adfer, mae'n bosibl yr hoffai'r Cyngor ystyried mireinio ei ddull gweithredu mewn perthynas ag adolygiadau gweithredol. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar elfennau penodol o gontract neu brosiect gyda'r nod o gyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau yn gyflym a rhannu canfyddiadau, boed yn gadarnhaol neu'n ddatblygiadol, gyda rheolwyr prosiectau eraill.

| Argymhelliad cychwynnol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |  |
|--|--|--|
| <p><b>Effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol - A11</b></p> <p>Dylai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r rheolwyr gytuno ar derfynau amser rhesymol ar gyfer ymateb i geisiadau am archwiliadau. Dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am achosion o oedi fel rhan o'r dangosyddion perfformiad chwarterol.</p>   | <p>Cytuno ar derfynau amser ar gyfer ymateb i geisiadau am archwiliadau.</p>                   |  |
| Arsylwadau dilynol   | Statws   |  |
| <p>Rydym wedi cynnal trafodaethau gydag aelodau o staff y gwasanaeth Archwilio Mewnol a gadarnhaodd na fu unrhyw broblemau o ran achosion sylweddol o oedi wrth ymateb i geisiadau am archwiliadau yn 2012/13.</p> <p>Fodd bynnag, mae ymdrin â'r argymhellion yn adroddiad Contractio a Chaffael KPMG wedi cymryd cryn dipyn o amser y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Er gwaethaf hyn, cyflawnwyd y camau gweithredu hyd yn hyn yn unol â chanllawiau 'Llif Gwaith y Prosiect'.</p> | <p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Ni nodwyd unrhyw achosion sylweddol o oedi yn ystod 2012/13.</p> |  |



| Argymhelliad cychwynol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor   |  |
|---|---|--|
| <p><b>Y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio - A12</b></p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu ac ailwampio'r rhaglen waith a'r papurau a gaiff eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.</p>   | <p>Adolygu ac ailwampio'r rhaglen waith a'r papurau a gaiff eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.</p>   |  |
| Arsylwadau dilynol  | Statws  |  |
| <p>Drwy fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, rydym wedi cadarnhau bod y papurau a gyflwynir i'r aelodau wedi'u diweddarau a'u bod yn cynnwys y wybodaeth briodol. Mae'r papurau a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio bellach yn gliriach ac yn cynnig gwell dealltwriaeth o'r meysydd risg posibl, gan gynnwys canfyddiadau cryno a gwybodaeth allweddol mewn perthynas â'r argymhellion a'r gwendidau.</p> | <p><b>Gweithredwyd</b></p> <p>Rydym yn fodlon bod y papurau a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio wedi gwella ac y caiff yr holl ddata allweddol bellach eu cynnwys fel rhan o'r canfyddiadau cryno.</p> |  |

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Maesdu – Cyflwyno Adroddiadau – A13

Pan fydd yn wynebu materion dadleuol, mae angen i'r Cyngor asesu lefel y wybodaeth a ddarperir ganddo i aelodau a'r cyhoedd yn ofalus, gan sicrhau ei fod yn taro'r cydbwysedd priodol ac yn rhoi'r cyfle i aelodau oruchwylio a herio'r broses. Mewn prosiectau lle ceir costau cynyddol, dylai adroddiadau i'r aelodau gynnwys dadansoddiadau o'r gost ddiwygiedig a'r amrywiadau o ran costau yn ogystal ag amlinellu sut yr ariennir unrhyw gostau cynyddol.

Rhoi gwybod i'r Grŵp Gweithredol am unrhyw faterion dadleuol ac asesu lefel y wybodaeth a ddarperir i'r aelodau yn ofalus.

## Arsylwadau dilynol

Rydym wedi adolygu enghreifftiau o gofnodion y Grŵp Gweithredol a ddangosodd fod sgysrsiau wedi mynd rhagddynt am brosiectau a chontractau ac y cyflwynwyd adroddiadau ar faterion pwysig a'u trafod gyda lefel briodol o fanylder.

Gwnaethom gadarnhau hefyd fod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio am Gyfrifon Terfynol Contractau. Mae hyn yn darparu dadansoddiad o'r costau gwirioneddol yr aed iddynt o gymharu â'r gyllideb, gydag esboniadau dros gostau ychwanegol.

## Statws

### Yn parhau

Yn seiliedig ar y wybodaeth a adolygwyd, rydym yn fodlon bod y Grŵp Gweithredol yn cael gwybod am faterion sy'n ymwneud â chontractau.

Fodd bynnag, y mater allweddol o ran yr argymhelliad hwn yw lleihau nifer y materion dadleuol sy'n codi yn y lle cyntaf. Gellir rheoli hyn drwy sicrhau y caiff pob argymhelliad a nodir yn yr adroddiad hwn ei roi ar waith, drwy ddilyn fframweihiau a gweithdrefnau rheoli prosiectau a chontractau'r Cyngor a thrwy hyfforddi staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol a'r mathau priodol o ymddygiad i reoli contractau.

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |  |
|---|--|--|
| <p><b>Maesdu – Monitro – A14</b></p> <p>Lle y bydd contractwyr yn cynnig amrywiad sylweddol i'r fanyleb neu'r dull gweithredu, dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau o staff o statws priodol â phrofiad addas yn adolygu'r cynnig ymlaen llaw ac y gwneir pob ymdrech i herio'r amrywiad cost drwy ystyried dewisiadau amgen a sicrhau bod gwaith ychwanegol yn hanfodol ac y caiff ei awdurdodi.</p>   | <p>a) Sicrhau y caiff digon o adnoddau a staff â chymwysterau priodol eu neilltuo i reoli a goruchwylio contractau.</p> <p>b) Adolygu ac ystyried safoni gweithdrefnau ar draws adrannau ar gyfer ymdrin ag amrywiadau mewn contractau. Argymhelliad pellach y dylai'r Cyngor fabwysiadu Ffurflen Contract NEC3 fel ei ddull ar gyfer rheoli contractau.</p>   |  |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |  |
| <p>a) Mae'r Cyngor wedi dangos bod strwythurau rheoli effeithiol ar waith ar gyfer contractau Parc Eirias ac Ysgol y Gogarth, a ddewiswyd i'w hadolygu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.</p> <p>b) Rydym wedi cadarnhau drwy adolygu cofnodion y Fforwm Contractau a thrwy drafodaethau gydag uwch reolwyr y Cyngor fod Ffurflen Contract NEC3 wedi'i chymeradwyo fel y contract i'w ddefnyddio gan bob contract. Rydym wedi cadarnhau bod ffurflen NEC3 bellach yn cael ei defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o gontractau. Fodd bynnag, mae Ffurflen Contract JCT yn cael ei defnyddio o hyd ar gyfer rhai contractau bach. Rydym ar ddeall mai bwriad y Cyngor yw y daw'r defnydd o JCT i ben unwaith y bydd pob aelod perthnasol o staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio NEC3.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Er bod y Cyngor wedi dangos bod strwythurau rheoli priodol ar waith ar gyfer y ddau gontract a adolygwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae'n bwysig ymdrin ag anghenion hyfforddi fel yr amlygir yn argymhelliad rhif 1.</p> <p>Mae'r Cyngor yn llygad ei le wrth feddwl bod defnydd safonol o ffurflen Contract NEC3 yn allweddol er mwyn gwella ei ddull gweithredu mewn perthynas â dogfennaeth contractau a rheoli amrywiadau o ran manylebau contract.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor bellach sicrhau y cyflwynir y contract newydd hwn i bob gwasanaeth cyn gynted â phosibl.</p> |  |

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor   |
|---|---|
| <p><b>Maesdu – Contractau a Gaffaelir ar y Cyd – A15</b></p> <p>Efallai nad contractau a gaffaelir ar y cyd fydd yn awtomatig yn darparu'r gwerth gorau o dan yr amgylchiadau penodol a dylid barnu pob achos yn unigol.</p>  | <p>Rhaid gwerthuso pob prosiect lle ceir trefniadau caffael ar y cyd a dogfennu'r buddiannau a ragwelir a'r buddiannau gwirioneddol.</p>  |
| Arsylwadau dilynol  | Statws  |
| <p>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r prosiect Goleuadau Stryd ar y cyd, lle mae'n gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych fel enghraifft o gontract lle y gwerthuswyd cynigion tendr yn briodol. Dangosodd hyn fod y buddiannau, yr arbedion cost a'r arbedion uwch posibl wedi'u nodi cyn gwneud penderfyniad i gymeradwyo'r gydberthynas waith hon. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu prosiect arall, Gwasanaethau Cyfreithiol, ac na nodwyd unrhyw broblemau.</p> <p>O blith y prosiectau a adolygwyd, ni nodwyd unrhyw faterion sylweddol. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd tystiolaeth i ddangos bod pob prosiect mawr lle cafwyd trefniadau caffael ar y cyd wedi'i adolygu.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiadau o rai prosiectau caffael ar y cyd penodol.</p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff pob prosiect mawr lle ceir trefniadau caffael ar y cyd ei adolygu ac y caiff y canlyniadau eu cofnodi a'u hadrodd yn briodol.</p> |

| Argymhelliad cychwynnol  | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor   |
|--|---|
| <p><b>Maesdu – Goruchwylio Contractau Mawr – A16</b></p> <p>Dylid adolygu contractau mawr a dylai uwch swyddogion eu goruchwylio a'u herio fel mater o drefn. Ni ddylid eu dirprwyo i swyddogion cymharol ifanc neu ddibrofiad. Adolygu'r fethodoleg ar gyfer neilltuo adnoddau ar gyfer contractau mwy o faint ac argymell gwelliannau.</p>   | <p>Sicrhau y caiff digon o adnoddau a staff â chymwysterau priodol eu neilltuo i reoli a goruchwylio contractau.</p>  |
| Arsylwadau dilynol   | Statws  |
| <p>Gweler yr arsylwadau mewn perthynas ag argymhelliad 1 ac argymhelliad 14.</p> <p>Cadarnhawyd gennym fod cofrestr sgiliau wedi'i chwblhau'n rhannol bellach ar waith. Mae CVs unigol wrthi'n cael eu llunio ar gyfer pob aelod o staff a nodir ar y gofrestr, gan nodi eu meysydd arbenigedd, eu cymwysterau a'u profiad diweddar ar brosiectau. Rydym ar ddeall y caiff y gofrestr ei diweddarau'n llawn unwaith y bydd y broses o ailstrwythuro adrannau wedi'i chwblhau.</p> <p>Unwaith y caiff ei chwblhau, bydd y gofrestr sgiliau ar gael i bob rheolwr, y disgwylir iddynt edrych ar y gofrestr cyn penderfynu ar staff prosiect, drwy ymgynghori â'r Adran Ymgynghoriaeth.</p> <p>Rydym hefyd wedi cadarnhau y cynhaliwyd hyfforddiant penodol ar gydymffurfiaeth mewn perthynas â chontractio a chaffael ar ffurf gweithdai 'Rheoli Adeiladu' a gynhaliwyd gydag aelodau perthnasol o staff ym mis Ebrill a mis Mai 2013.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Unwaith y caiff ei chwblhau, rhaid i'r Cyngor ddiffinio'n glir sut y caiff y gofrestr sgiliau ei defnyddio i wella cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ar gontractau, gan gynnwys dyrannu adnoddau, ar sail ddyddiol.</p> |

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor   |
|---|---|
| <p><b>Maesdu – Monitro – A17</b></p> <p>Sicrhau gwell rheolaeth drwy'r broses contractau. Gweler argymhelliad 14.</p>   | <p>Sicrhau y caiff digon o adnoddau a staff â chymwysterau priodol eu neilltuo i reoli a goruchwylio contractau. Adolygu ac ystyried safoni gweithdrefnau ar draws adrannau ar gyfer ymdrin ag amrywiadau mewn contractau</p>   |
| Arsylwadau dilynol  | Statws  |
| <p>Gweler yr arsylwadau mewn perthynas ag argymhelliad 1 ac argymhelliad 14.</p> <p>Mae'r broses o uno adrannau'r ETS, PMAS a Phrifyrdd a Seilwaith i greu un gyfarwyddiaeth (Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (ERF)) bellach wedi'i chwblhau. Bwriedir i'r gyfarwyddiaeth newydd hon helpu i roi gweithdrefnau contractio safonol ar waith.</p> <p>Mae'r broses ailstrwythuro yn gam cadarnhaol mawr o fewn proses hirdymor i sicrhau y caiff argymhellion yr Adroddiad Contractio a Chaffael eu hymsefydlu'n llawn o fewn diwylliant rheoli contractau newydd.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Gweler yr arsylwadau mewn perthynas ag argymhelliad 1 ac argymhelliad 14.</p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau lle y gwneir newidiadau o ganlyniad i'r broses ailstrwythuro, y caiff y rolau, y cyfrifoldebau, y prosesau a'r fframweithiau a ddefnyddir i reoli contractau a phrosiectau yn effeithiol eu diweddarau i adlewyrchu'r strwythur diwygiedig er mwyn sicrhau y caiff y broses o roi'r argymhellion hyn ar waith ei ymsefydlu'n llawn yn yr hirdymor.</p> |

## Argymhelliad cychwynnol

## Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor

### Maesdu – Achosion Sylfaenol - A18

Dylai'r Cyngor ystyried y ffactorau sylfaenol sy'n achosi'r cynnydd hwn mewn costau yn fanwl, o safbwynt rheoli'r prosiect ac o safbwynt monitro costau. Wedyn dylai'r Cyngor baratoi cynllun manwl i nodi beth fydd yn newid er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer monitro a gweithredu prosiectau cyfalaf mawr yn y dyfodol wrth i'r prosiectau fynd rhagddynt.

- a) Darparu adroddiad yn nodi'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi'r cynnydd hwn mewn costau yn fanwl, o safbwynt rheoli'r prosiect ac o safbwynt monitro costau.
- b) Parhau i fonitro amrywiadau cost ar brosiectau cyfalaf.

## Arsylwadau dilynol

## Statws

- a) Amlygodd adroddiadau gwreiddiol y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Bont a Phrifyrdd Maesdu feysydd allweddol o wendid. Roedd y rhain yn cynnwys diffygion o ran talu ffioedd ymgynghori a diffyg trefniadau adolygu / herio cyn talu anfonebau. Fodd bynnag, ni luniwyd unrhyw adroddiad ychwanegol i nodi manylion y ffactorau sylfaenol a achosodd y cynnydd mewn costau.
- b) Gwnaethom adolygu enghreifftiau o adroddiadau amrywiadau cost cyfalaf a gyflwynwyd i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet. Mae'r rhain yn darparu manylion sylweddol am opsiynau, adnoddau a risgiau ac yn helpu'r aelodau drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau. Bellach caiff adolygiadau misol o gostau cynlluniau gan y tîm Cyllid mewn cydweithrediad â Rheolwr y Prosiect eu hategu gan ddogfen Monitro Prosiect benodol.

### Yn parhau

Argymhellodd Adroddiad Contractio a Chaffael KPMG y dylid ystyried y ffactorau sylfaenol a achosodd y cynnydd hwn mewn costau yn fanwl. Ni luniwyd unrhyw adroddiad ychwanegol i nodi'r achosion sylfaenol, gan olygu na luniwyd ychwaith gynllun manwl i sicrhau yr ymdriniwyd â'r achosion hynny, y mae'n rhaid ei wneud ar gyfer unrhyw achosion sylweddol o orwario yn y dyfodol.

Fodd bynnag, noda ein gwaith fod costau cyfalaf y prosiect yn cael eu monitro'n rheolaidd, ac y cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar unrhyw amrywiadau o ran cost.

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |
|---|--|
| <p><b>Maesdu – Sgiliau ac Adnoddau - A19</b></p> <p>Gyda phrosiectau mawr iawn, dylai swyddog o statws priodol â phrofiad addas fod yn gyfrifol am reoli'r prosiect. Dylai'r Cyngor ystyried p'un a oes ganddo'r adnoddau mewnol angenrheidiol i reoli prosiectau mawr a chymhleth ar sail achosion unigol. Dylid ystyried cyfleoedd i rannu sgiliau ac adnoddau â chynghorau cyfagos.</p>                                  | <p>Darparu adroddiad ar fater 14 uchod. Dylid ystyried cyfleoedd i rannu sgiliau ac adnoddau â chynghorau cyfagos.</p> |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |
| <p>Gweler yr arsylwadau mewn perthynas ag argymhelliad 1 ac argymhelliad 14.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi dangos, mewn rhai achosion, ei fod wedi rhannu sgiliau ac adnoddau gyda Chynghorau cyfagos fel rhan o ymdrechion cydweithredol. Ymhlith yr enghreifftiau, mae cynllun brys diweddar i adfer rhan o'r ffordd yn Llangernyw a oedd wedi dymchwel, lle chwaraeodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Gwynedd eu rhan.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Gweler yr arsylwadau mewn perthynas ag argymhelliad 14.</p>                                 |



| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |
|---|--|
| <p><b>Arfer Gorau - A20</b></p> <p>Dylai'r Cyngor ddatblygu llwybr ar gyfer rhannu arfer gorau ar draws ei wasanaethau, gan hyrwyddo cysondeb a chydymffurfiaeth.</p>   | <p>Llunio adroddiad er mwyn nodi a rhannu arfer gorau.</p>   |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |
| <p>Mae'r Cyngor yn datblygu nifer o ddulliau i sicrhau y caiff arfer gorau wrth reoli contractau ei rannu ar draws y Cyngor.</p> <p>Mae'n ofynnol i bob prosiect gynnal adolygiad ôl-brosiect, gan gofnodi'r canlyniadau ar 'gromgell' gwersi ganolog sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut y mae'r Cyngor yn sicrhau yr ymdrinnir â'r gwersi hyn ar brosiectau eraill.</p> <p>Sefydlwyd y Fforwm Contractau a'r fforwm Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer rhannu arfer da a'r gwersi a ddysgwyd.</p> <p>Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor hefyd yn cynnal adolygiadau 'gweithredol'. Nodwyd gennym fod yr adolygiadau wedi cymryd cryn amser i'w cwblhau ar eu ffurf derfynol ac mai dim ond ar gyfer nifer fach o brosiectau y'u cwblhawyd. Rydym yn cydnabod bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn ymgymryd ag amrywiaeth helaeth o weithgareddau ar gontractau, a bwriedir i'n sylwadau ar adolygiadau gweithredol wella effeithiolrwydd yr adolygiadau hynny.</p> | <p><b>Yn parhau</b></p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau yn ystod <i>pob cam</i> o'r broses rheoli prosiectau, y caiff arfer gorau a phrofiadau eu rhannu'n ffurfiol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â phwyntiau dysgu ac y gellir ailadrodd camau gweithredu cadarnhaol.</p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ar bob prosiect arall.</p> <p>Mae grwpiau fel y Fforwm Contractau yn greiddiol i'r broses o ledaenu gwybodaeth. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau bod yr amcan a'r camau gweithredu hyn yn treiddio i mewn i'r broses o reoli pob contract.</p> <p>Er mwyn sicrhau y cyflwynir adroddiadau amserol ar y canfyddiadau ac er mwyn rhoi cyfle i gymryd camau adfer, mae'n bosibl yr hoffai'r Cyngor ystyried mireinio ei ddull gweithredu mewn perthynas ag adolygiadau gweithredol. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar elfennau penodol o gontract neu brosiect gyda'r nod o gyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau yn gyflym a rhannu canfyddiadau, boed yn gadarnhaol neu'n ddatblygiadol, gyda rheolwyr prosiectau eraill.</p> |

| Argymhelliad cychwynnol   | Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt gan y Cyngor  |
|---|--|
| <p><b>Glanfa Newydd - A21</b></p> <p>Dylai'r Cyngor roi cyfarwyddyd i uwch swyddogion perthnasol adolygu'r cynlluniau ar gyfer y lanfa newydd cyn dechrau ar y gwaith. Yr amcan fyddai lleihau'r risg y bydd cwmpas neu gost y prosiect yn cynyddu ymhellach yn ystod y cam adeiladu. Gellid rhoi'r cam herio pellach hwn ar waith ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr (dros £100k er enghraifft). Dylai'r Cyngor hefyd benodi uwch swyddog priodol i ymgymryd â gwaith Yn parhau o ran monitro a herio costau os aiff y prosiect rhagddo.</p> | <p>a)Adolygu'r cynlluniau cyn i'r gwaith ddechrau er mwyn lleihau'r risg y bydd cwmpas neu gost y prosiect yn cynyddu ymhellach yn ystod y cam adeiladu.</p> <p>b)Penodi swyddog/swyddogion o statws priodol sy'n meddu ar gymwysterau addas i ymgymryd â gwaith Yn parhau o ran monitro a herio costau, os aiff y prosiect rhagddo.</p> |
| Arsylwadau dilynol  | Statws   |
| <p>Nid yw'r lanfa newydd yn mynd rhagddi.</p> <p>Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo cynigion i barhau i weithredu a rheoli'r lanfa bren bresennol, ynghyd ag ardal o wely'r afon yn yr ardal gyfagos.</p>  | <p><b>Ddim yn berthnasol</b></p> <p>(Disodlwyd)</p>  |



*cutting through complexity™*

© 2013 Mae KPMG LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y DU, yn un o is-gwmnïau KPMG Europe LLP ac yn aelod gwmni o rwydwaith KPMG o aelod gwmnïau annibynnol sy'n gysylltiedig â KPMG International Cooperative (KPMG International), sy'n endid o'r Swistir. Cedwir pob hawl.

Mae enw, logo ac arwyddeiriau KPMG (sef 'cutting through complexity') yn nodau masnach cofrestredig neu'n nodau masnach KPMG International Cooperative (KPMG International).